# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 13eg o Chwefror, 2024** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Festri Capel Isaf, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Lois Fychan** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Lois Fychan **(LF)** bawb i'r cyfarfod.<br><br>**YN BRESENNOL:**<br><br>Sianelen Pleming **(SP);** Ynyr Ellis **(YE);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Emlyn Williams **(EW);** Osian Hugh Williams **(OHW);** Gethin Jones **(GJ)**; Olwen Roberts **(OR);** William Jones **(WJ);** Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG);** a'r clerc Gillian Thomas **(GT).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN**<br><br>Sara Williams **(SW).** |
| **3.** | **CYFLWYNO A MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD IONAWR 2024** |
| | Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan GJ gyda EW yn eilio. |
| **4.** | **MATERION YN CODI** |
| | **a) MYNWENT CAPEL ISAF**<br>Roedd cyswllt wedi ei sefydlu gyda Gj a'r Capel. Adroddodd bod contract mewn lle gyda'r Gwasanaeth Prawf on bod rhai rhwystrau gyda darparu'r gwaith wedi codi.<br><br>**b) OW - ARWYDD LON GROES**<br>Ail gysylltwyd a'r Adran Priffydd oedd yn cadarnhau fod y mater yn parhau ar y rhaglen waith.<br><br>**c) SP – CRONFA PARTNERIAETH NATUR GWYNEDD**<br>Rhannodd y clerc wybodaeth gyda Pheiriannydd Dwyfor, bydd yn cysylltu nol gyda threfniadau i gynnal cyfarfod safle ar ôl derbyn ymateb gan adrannau eraill y Cyngor.<br><br>**d) LLWYBR – I DRAETH PISTYLL ANGEN SYLW**<br>Y clerc wedi gohebu a gwneud cais i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol atgyweirio'r llwybr.<br>Derbyniwyd argymhellion gan yr aelodau i geisio a chysylltu â Phlas yn Rhiw.<br><br>**e) OR/SW– GORDYFIANT**<br>Ail adroddwyd y cwynion canlynol i'r Tîm Tacluso<br>• Gordyfiant ger Y Ganolfan , Llithfaen<br>• Gordyfiant o'r siop i arwydd 20 yn Llithfaen<br>• Gordyfiant rhwng Gwelfor ac Arosfa, Llithfaen<br><br>**f) SP - DWR YN RHEDEG I'R PENTREF I LAWR Y LON O NANT**<br>Ail adroddwyd y gwyn i Briffyrdd Dwyfor yn esbonio bod rhan o'r gwaith wedi ei ddarparu ond nid yn ddigonol. Roedd y gwlia'u wedi ei glanhau ond nid oedd gwir natur y broblem wedi cael sylw. Tebygol bod rhediad y dŵr yn wahanol ers lledu'r lon a bod y gratin bellach mewn lleoliad anghywir i arbed y dŵr redeg. |

| | |
|---|---|
| | **g)** **GJLJ – TWLL YN Y FFORDD AR FIN CYRRAEDD Y SAFLE CARFFOSIAETH 100 LLATH O LON RHOSYDD YN LLITHFAEN**<br>Adroddwyd i Briffyrdd Dwyfor bod y twll wedi ail agor.<br>Gwaith wedi ei wneud eto ond gwaith annerbyniol. Y clerc i gysylltu ymhellach<br><br>**h)** **OH – CAIS AM SAFLE BWS OCHOR ARALL Y LON YM MHISTYLL**<br>Derbyniwyd gohebiaeth gan y Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd yn adrodd nad ydynt nid yn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i osod llochesi fws newydd. Nid oedd yn rhagweld y byddent yn cael arian flwyddyn ariannol nesaf chwaith. Cynigiodd i gynorthwyo'r Cyngor i archebu lloches eu hunain. Ni dderbyniwyd sylwadau pellach.<br><br>i) **SAFLE BWS LLITHFAEN**<br>Adroddodd EW ganlyniad y cyfarfod safle gyda Pheiriannydd y Cyngor Sir. Cytunodd yr aelodau gyda'i argymhellion i ail sefydlu'r gysgodfa 20 metr o'r safle presennol. |
| **5.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim wedi ei ddatgan |
| **6.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr derbyniol |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **RHIF CAIS: C24/0060/43/DT - 4, Mount Pleasant, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6NU**<br>Dilyn a Darganfod<br>Estyniadau unllawr ochr a chefn<br>Dim gwrthwynebiad |
| **8.** | **CYFEILLION LLYN - ARDAL O ARWYDDOCÂD IEITHYDDOL** |
| | Cais i lenwi ac arwyddo datganiad yn ymestyn cefnogaeth fel unigolion ac fel Cyngor Cymuned i gryfhau'r Gymraeg yn ein hardal ni ac i gydweithio i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>Y clerc i ymestyn cefnogaeth y Cyngor i i gryfhau'r Gymraeg yn eu hardal ni ac i gydweithio mewn egwyddor i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |
| **9.** | **SEDD WAG - LLITHFAEN** |
| | Trist iawn oedd cyhoeddi dymuniadau Sara Williams i ymddiswyddo o'i sedd yn cynrychioli Llithfaen ar y Cyngor.<br>Eglurodd i'r clerc bod pwysau gwaith a materion personol yn ei chadw o roi sylw manwl i'w dyletswyddau.<br>Y clerc i drefnu hysbysebu'r swydd gyda'r Cyngor Sir. |
| **10.** | **MEINCIAU LÔN CARNGUWCH A PHISTYLL** |
| | Rhannodd y clerc amcan brisiau i archebu meinciau newydd. Cytunwyd ei drafod eto. |
| **11.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Adroddodd SP bod y gwaith wedi cychwyn ac yn mynd yn ei flaen y ddi drafferth hyd yn hyn. |

| | |
|---|---|
| **12.** | **DIFFIBLWR I BISTYLL** |
| | Adroddodd JG am lwyddiant i sicrhau nawdd tuag at sefydlu diffiblwr ym Mhistyll<br>Bydd yn derbyn y canlynol o fewn 4 wythnos:<br>• diffibriliwr, ynghyd â phadiau a chit achub<br>• cabinet datgloi, allanol wedi' i gynhesu<br>• adnoddau ffisegol ar gyfer hyrwyddo RevivR, teclyn hyfforddi CPR ar-lein<br><br>Mae'r dyfarniad hefyd yn cael ei wneud ar yr amod bod:<br>• Yr uned wedi'i gosod y tu allan, yn y lleoliad a ddarperir ar y ffurflen gais<br>• Mae gennych chi awdurdodiad eisoes i osod y diffibriliwr yn y lleoliad uchod<br>• Bydd yn cofrestru'r diffibriliwr ar Y Gylchdaith (Rhwydwaith Diffibriliwr Cenedlaethol) o fewn 4 wythnos i'w gosod er mwyn i'r gwasanaeth ambiwlans fod yn ymwybodol o'i leoliad. Gellir dod o hyd i ganllaw ar gofrestru yma.<br>• Rydych yn ymrwymo i hyrwyddo RevivR, ein teclyn hyfforddi CPR ar-lein am ddim, i'ch cymuned leol<br><br>Ar ôl ei gyflwyno, bydd y pwyllgor yn cymryd perchnogaeth lawn a chyfrifoldeb dros storio, cynnal a chadw a defnyddio'r offer. Mae hyn yn cynnwys gofyn am badiau a batris newydd yn uniongyrchol gan y gwneuthurwr pan fo angen. |
| **13.** | **OPENREACH - CYNLLUNIAU FFEIBR LLAWN AR GYFER LLITHFAEN** |
| | GJ i hysbysebu'r wybodaeth ad dudalen y Cyngor ac SP i'w arddangos yn y siop. |
| **14.** | **MATERION LLEOL** |
| | a) GJ – Cae chwarae Pistyll llawn mwsog ac yn tyfu yn wyllt<br>b) SP - Dim gweithredu di neud ar arwyddion parcio o flaen siop<br>c) OJ – Uwch y Don Pistyll bocs grean wedi malu |
| **15.** | **HYFFORDDIANT** |
| | Y clerc i gylchredeg llythyr JG i gynghorau eraill i ysbrydoli aelodau fynychu hyfforddiant yn y Gymraeg |
| **16.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| **17.** | **a) GWEITHDY MENTER IAITH BOTWNNOG- NEWID DYDDIAD - NOS FERCHER Y 27AIN O CHWEFROR AM 6PM**<br>**Bydd Jina yn bresennol**<br><br>**b) DIGWYDDIAD AR Y CYD UN LLAIS CYMRU A CHYMORTH CYNLLUNIO CYMRU – DYDD IAU 7 MAWRTH 2024 O 10.00AM TAN 2.00PM (O BELL)**<br><br>**c) BWLETIN NEWYDDION UN LLAIS Cymru** |
| **18.** | **CYLLID** |
| | **a) CYSONIAD A RHAGAMCANION 2023/24**<br>Adroddodd y clerc am gamgymeriad oedd wedi digwydd gyda thaliadau mis Ionawr oedd yn golygu nad oeddent wedi eu talu o gyfrif y Cyngor felly roedd rhaid eu cymeradwyo eto ac ad dalu y cyfanswm.<br>Gweler isod. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **CYSONIAD 2023 / 2024** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2023** | | £ 9,614.09 |
| + | **CYFRIF CADW MAWRTH 2023** | | £ 2,671.02 |
| - | **LLAI SIECIAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | | £ - |
| + | **GWARGED 2023 / 2024** | | £ 6,754.75 |
| = | **CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 19,039.86** |

**<u>I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC</u>**

**<u>CYFRIF CYFREDOL - 01 o Ionawr i 31 o Ionawr 2023</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 17,018.97** |
| Derbyniadau | + | £ 43.40 |
| Gwariant | - | |
| Balans Cau | = | **£ 16,975.57** |

**<u>CYFRIF CADW - 07 Ragfyr i 6ef o Chwefror 2023</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 2,703.97** |
| Derbyniadau | + | |
| Gwariant | - | £ - |
| Balans Cau | = | **£ 2,703.97** |
| | = | **£ 19,679.54** |

**<u>LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | | | |
| | | = | **£ -** |

**<u>LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Cyflog a Threuliau Clerc | 201295 | £ 291.35 |
| - | Ad daliad taliadau fis Ionawr | 201294 | £ 348.33 |
| | | = | **£ 639.68** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **<u>SYDD YN CYTUNO GYDA CHRONFA'R CYNGOR</u>** | = | **£ 19,039.86** |
| - | **<u>LLAI BALANS CRONFA'R DIFFIBLWR</u>** | - | **£ 251.90** |
| = | **<u>CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY</u>** | = | **£ 18,787.96** |

b)

| | |
|---|---|
| **19.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 12fed o Fawrth 2024, 7y.h Capel Isaf, Llithfaen |